## Teithiau Cerdded Nantgaredig, Pont-ar-gothi a Llanegwad

**1 Adeiladwyd y bont gerrig tri bwa wych** dros y Tywi yn Llandeilo-yr-ynys, i'r de o Nantgaredig, yn 1786, ar adeg pan gafodd amryw o ffyrdd tyrpeg newydd eu hadeiladu i foderneiddio rhwydwaith ffyrdd y wlad.

**2 Mae afon Tywi** yn gorlifo'i glannau yn aml, gan orlifo i orlifdir helaeth lle mae dyddodion yr afon yn rhoi maeth i'r caeau o'i gwmpas. Mae'r borfa fras yn denu heidiau o Wyddau Canada a gwelir Hwyaid Danheddog hardd ar yr afon o bryd i'w gilydd. Cafodd yr adar prin hyn sy'n bwyta pysgod eu cofnodi am y tro cyntaf fel adar magu yn Sir Gaerfyrddin yn 1980. Yn ystod misoedd yr haf mae'r glannau afon tywodlyd yn darparu mannau nythu i Wenoliaid y Traeth, tra bod Telorion yr Hesg i'w gweld neu eu clywed yn aml yn y llwyni a'r coed ar hyd yr afon.

**3** Roedd y **trenau** a arferai redeg ar hyd Rheilffordd Canolbarth Cymru a Chyffordd Caerfyrddin (a agorwyd yn 1865) yn sefyll yng Ngorsaf Nantgaredig ar un adeg. Saif Gwesty'r Rheilffordd gerllaw'r hen orsaf ac mae'n dal ar agor er i'r rheilffordd gau yn 1963. Mae cysylltiadau ffyrdd pob cyfnod wedi rhedeg ar hyd gorlifdir y Tywi. Mae'r ffordd Rufeinig rhwng ceyrydd Llandeilo a Chaerfyrddin yn rhedeg yn gyfochrog â'r A40.

**4** O'r fan hon **mae golwg glir** ar fryngaer Oes Haearn o'r enw Allt Myrddin i'r gorllewin. Yn ôl traddodiad mae cysylltiad rhwng Allt Myrddin a Myrddin y dewin chwedlonol (Myrddin chwedl Arthur). Mae canolfan ymwelwyr yn Fferm Allt Myrddin a gellir ymweld â'r bryngaer.

**5** Roedd **Melin Mynachdy** sy'n dŷ preifat erbyn hyn yn felin flawd ar un adeg. Fe'i hadeiladwyd yn yr Oesoedd Canol a hon oedd melin Plas Mynachdy oedd yn eiddo i fynachod Abaty Talyllychau.

**6** Adeiladwyd **eglwys y Drindod Sanctaidd** gan Henry James Bath, mentergarwr cefnog a oedd yn byw ym mhlas Alltyferin a safai ar ochr arall Afon Cothi. Fe'i dechreuwyd yn 1865 a'i chysegru yn 1878. Arferai dynion y plas gerdded i'r eglwys (gan groesi'r afon dros bompren y tu ôl i'r eglwys) tra arferai'r merched deithio mewn cert a cheffyl ar hyd y ffordd. Ar adeg ysgrifennu hwn mae'r eglwys ar agor i ymwelwyr bob prynhawn dydd Iau.

**7** Adeiladwyd **Plas Alltyferin** ar gyfer y teulu Bath yn 1869. Cafodd y tŷ ei ddymchwel yn yr 1950au ond mae olion o fawredd yr ystad yn para o hyd yn y dirwedd leol. Mae'r rhododendronau a'r coed castanwydd yn y llwyni yma yn nodweddiadol o'r coed y byddai ystadau y eu plannu.

**8 Yn union y tu allan i fynedfa'r Gât Ddeheuol** i ystâd Alltyferin saif Glan-Cothi, sef tŷ fferm yn wreiddiol a newidiwyd yn adeilad mwy crand erbyn blynyddoedd cyntaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg pan oedd yn gartref y teulu Hughes. Bu Howell Harris sef arweinydd enwog y Methodistiaid yn pregethu yma ar sawl achlysur yng nghanol y ddeunawfed ganrif.

**9 Mae castell mwnt Pen y Cnap**, a saif i'r gorllewin o Lanegwad, yn dyst i'r gwrthdaro yn y ddeuddegfed ganrif a'r drydedd ganrif ar ddeg rhwng tywysogion pwerus Dinefwr, a'r goresgynwyr Eingl-Normanaidd. Brwydrwyd dros ddyffryn Tywi nes cwymp y tywysogion ym mlynyddoedd olaf y drydedd ganrif ar ddeg. Yn ôl yr hyn a gofnodwyd fe enillwyd Castell Llanegwad gan Rhys Ieuanc, mab Arglwydd Rhys, yn 1203.

**10 Roedd y llwybr hwn gyda'i wrychoedd** ar y ddwy ochr yn ffordd borthmyn ar un adeg ac yn cael ei ddefnyddio i fynd ag anifeiliaid i'r farchnad. Yma ceir golygfeydd gwych o'r wlad o gwmpas. Trwy gydol y gwanwyn a'r haf mae'r cloddiau ar hyd y ffordd yn wledd i'r llygad gan eu bod yn orlawn o flodau o bob lliw a llun. Mae blodau melyn llachar Llygad Ebrill yn dangos bod y gwanwyn wedi dychwelyd, ac mae blodau Bresych y Cŵn, Llygad Madfall, Blodyn Taranau a'r Gegiden Fenyw yn ymddangos yn fuan wedyn. Mae'r rhain i gyd yn gwthio am le ymhlith amrywiaeth fawr o laswellt a rhedyn.



Dyfrgi
Otter

## Nantgaredig, Pont-ar-gothi and Llanegwad Country Walks

**1 The fine, three-arched stone bridge** over the Towy at Llandeilo-yr-ynys, south of Nantgaredig, was built in 1786, a time when many new turnpike roads were being built to modernise the communications network of the country.

**2 The river Towy** frequently bursts its banks, spilling over onto an extensive flood plain where the river deposits enrich the surrounding fields. The lush grass attracts flocks of Canada Geese, while Goosanders (beautiful saw-billed ducks) can occasionally be seen on the river. These scarce fish-eating birds were first recorded as a breeding bird in Carmarthenshire in 1980. During the summer months the sandy riverbanks provide nesting sites for Sand Martins, while Sedge Warblers can often be seen or heard in the shrubs and trees lining the river.

**3 Trains** running on the Central Wales and Carmarthen Junction Railway Line (opened in 1865) once stopped at Nantgaredig station. The Railway Hotel stands beside the old railway station and is still open for business despite the closure of the railway in 1963. Communication routes of all periods have run along the Towy floodplain. The Roman road between the forts of Llandeilo and Carmarthen runs parallel to the modern A40.

**4 There is a clear view** from here of the Iron Age hillfort of Allt Myrddin to the west. Allt Myrddin is linked by tradition to the legendary Welsh magician Myrddin (the Merlin of Arthurian legend). There is a visitor centre at Allt Myrddin Farm and the hillfort can be visited.

**5 Felin Mynachdy**, now a private house, was once a corn mill. It has medieval origins and was the mill of the Mynachdy Grange owned by the monks of Talley Abbey.

**6 Holy Trinity church** was built by Henry James Bath, a wealthy entrepreneur who lived in Alltyferin mansion which once stood on the opposite side of the River Cothi. It was started in 1865 and consecrated in 1878.The gentlemen of the mansion walked to the church (crossing the river by a footbridge behind the church) while the ladies went by coach and horses along the road. At the time of writing this church is open each Thursday afternoon for visitors.

**7 Alltyferin Mansion** was built for the Bath family in 1869. The house was demolished in the 1950s but there is still evidence of the estate's grandeur to be found in the local landscape. The rhododendrons and chestnut trees in the woods here are typical of estate planting.

**8 Just outside the South Gate** entrance to the Alltyferin estate stands Glan-Cothi, originally a farmstead but transformed into a grander building by the early 19th century when it was the home of the Hughes family. The famous Methodist leader Howell Harris preached here on several occasions in the mid 18th century.

**9 Pen y Cnap motte castle**, which stands to the west of Llanegwad, is a relic of the conflicts of the 12th and 13th centuries between the powerful princes of Dinefwr, and the Anglo-Norman invaders. The Towy valley was fought over until the fall of princes in the late 13th century. Llanegwad Castle was recorded as being gained by Rhys Ieuanc, son of the Lord Rhys, in 1203.

**10 This lane with hedges** on either side was once a drover's road used for moving livestock to market. It provides fine views of the surrounding countryside. Throughout the spring and summer months the hedgebanks along the way are a delight, crammed with flowers of all colours and hues. The bright yellow flowers of Lesser Celandine herald the return of spring, and the flowers of Dogs Mercury, Stitchwort, Red Campion and Cow parsley soon follow. They all jostle for position amongst a wide variety of grasses and ferns.




| | |
|---|---|
| Llwybrau a Argymhellir | Recommended Route |
| Hawliau Tramwy Eraill | Other Rights of Way |

Hawlfraint y Goron © Crown Copyright LA09007L/97/01







# Nantgaredig

Nantgaredig



## Llwybrau Sir Gaerfyrddin
## Carmarthenshire County Walks
### Pont-ar-gothi & Llanegwad

Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council

Amser Hamdden Leisure Time

## Nantgaredig, Pont-ar-gothi a Llanegwad

Mae'r daflen hon yn cynnwys tri phentref bychan ar hyd dyffryn Tywi, gyda phob un yn doreithiog o ran ei archaeoleg a'i hanes sef Nantgaredig, Pont-ar-gothi a Llanegwad.

Pentref modern yw Nantgaredig a ddatblygodd ar ôl dyfodiad y rheilffordd yn 1865. Caeodd y lein yn 1963, ond gellir gweld rhai o adeiladau'r orsaf o hyd. Mae'r llwybrau cerdded yn croesi gwely'r lein rheilffordd mewn sawl man, felly gwyliwch am hafnau, gorgloddiau a phontydd. Mae gweddillion mwy hynafol serch hynny o gwmpas y pentref. Un o'r safleoedd pwysicaf yw gweddillion cofadail meingylch a adeiladwyd dros 5,000 o flynyddoedd yn ôl sy'n rhoi tystiolaeth o drigolion cyntaf yr ardal. Credir bod y meingylchoedd hyn wedi bod yn fannau pwysig ar gyfer cynnal seremonïau yn ystod y cyfnod Neolithig sef oes y ffermwyr cyntaf. Yn ôl pob sôn, gerllaw yn Llandeilo-yr-ynys y ganwyd Teilo Sant yn y 6ed ganrif sef un o fawrion yr Eglwys Gristnogol gynnar yng Nghymru.

Lle pontio hynafol dros yr Afon Cothi yw Pont-ar-gothi ac mae'n rhaid bod y ffordd Rufeinig sy'n mynd ar hyd y dyffryn wedi croesi'r afon yn ymyl y fan hon. Roedd melin flawd a chapel yn agos at y bont bresennol yn yr Oesoedd Canol, ond mae Melin Cothi yn segur ers amser maith ac nid yw Capel y Santes Fair yno bellach. Mae'r pentref yn enwog am y tair tafarn sydd yno.

Mae Llanegwad yn dwyn ei enw o Egwad sef un o seintiau'r Oesoedd Tywyll a sefydlodd yr eglwys gyntaf yma yn ôl pob sôn. Tref bwrdeistref fechan dan reolaeth Esgob Tyddewi oedd Llanegwad yn yr Oesoedd Canol. Yn ôl rhôl rent 1326 a elwid Llyfr Du Tyddewi roedd dyletswyddau'r trigolion i'r Arglwydd yn cynnwys cynnal a chadw Melin yr Arglwydd (Melin Cothi gerllaw'r bont ym Mhontargothi oedd hon yn ôl pob tebyg) a hebrwng carcharorion i lys yr Arglwydd ym Meidrim.



Hwyaden ddanheddog
Gooseander

Gwastadedd eang dyffryn afon Tywi gyda gorlifdiroedd a thir amaethyddol helaeth yn rhedeg ar ei hyd yw prif nodwedd yr ardal. Mae'r afon yn cynnal amrywiaeth o blanhigion ac anifeiliaid prin ac fe'i dynodwyd yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ac Ardal Gadwraeth Arbennig. Mae'r ardaloedd sydd i ffwrdd o'r afon hefyd yr un mor ddiddorol sef y cloddiau yn yr haf.

## Nantgaredig, Pont-ar-gothi and Llanegwad



This leaflet encompasses three small villages along the Towy valley, all with a wealth of archaeology and history: Nantgaredig, Pont-ar-gothi and Llanegwad.

Nantgaredig is a modern village that developed after the arrival of the railway in 1865. The line closed in 1963, but some station buildings can still be seen. The walks cross the railway track bed at several points, so look out for cuttings, embankments and bridges. There are, however, more ancient remains around the village. Amongst the most significant sites are the earthwork remains of a henge monument, built over 5,000 years ago, evidence of some of the first inhabitants of the region. Henges are thought to have been important ceremonial sites during the Neolithic period, the age of the first farmers. Nearby, Llandeilo-yr-ynys was reputedly the birthplace of St Teilo in the 6th century, one of the great figures of the early Christian church in Wales.

Pont-ar-gothi is an ancient bridging point over the River Cothi, and the Roman road that runs along the valley must have crossed the river near here. There was a corn mill and a chapel close to the present bridge in medieval times, but the Cothi Mill is long disused and St Mary's Chapel no longer remains. The village is notable for its three inns.

Llanegwad takes its name from Egwad, a saint of the Dark Ages, who is said to have founded the first church here. In medieval times Llanegwad was a small borough town controlled by the Bishop of St David's. The Black Book of St. David's, a rent roll of 1326, shows that the inhabitants' duties to the Lordship included maintenance of the Lord's Mill (probably the Cothi Mill near the bridge in Pont-ar-gothi) and escorting prisoners to the Lord's court at Meidrim.

The broad sweep of the Towy river valley, skirted by extensive flood plains and agricultural land, is the dominant feature of the area. The river supports a variety of rare plant and animal life and is designated as a Site of Special Scientific Interest and as a Special Area of Conservation. Away from the river the areas is no less interesting, the hedge-banks in summer

## Eisiau gwybod rhagor?

Mae'r llwybr hwn yn un o gyfres Llwybrau Sir Gaerfyrddin.
I gael rhagor o wybodaeth am y llwybrau yn y gyfres cysylltwch a'r:
**Uned Parciau a Cefn Gwlad,**
**Ty'r Nant, Parc Busnes Trostre, Llanelli, SA14 9UT.**
**Ffôn: (01554) 747500**
**www.sirgar.gov.uk**

A chithau wedi cerdded un o'n llwybrau, efallai y carech wybod bod yna dri pharc gwledig yn Sir Gaerfyrddin – Pen-bre, Gelli Aur ar bwys Llandeilo, a Llyn Llech Owain ar bwys Gorslas. Mae pob un yn cynnig cyfleoedd rhagorol i bawb fwynhau cefn gwlad.

## Want to know more?

This is one of a series of country walks in Carmarthenshire.
For further information of walks in this series contact:
**Parks and Countryside Unit,**
**Ty'r Nant, Trostre Business Park, Llanelli, SA14 9UT.**
**Telephone: (01554) 747500**
**www.carmarthenshire.gov.uk**

Now that you have enjoyed one of our walks you may like to know that there are three Country Parks in Carmarthenshire – Pembrey Country Park, Gelli Aur near Llandeilo and Llyn Llech Owain near Gorslas, all offering excellent opportunities for enjoying the countryside.

**Trafnidiaeth Gyhoeddus:** I gael y wybodaeth ddiweddaraf am y Gwasanaethau Trafnidiaeth Gyhoeddus Lledled Cymru ffoniwch:

**Public Transport:** For up-to-date information, phone the All Wales Public Information Helpline:

**0870 6082 608**




## Y Teithiau Cerdded

Mae'r llwybr cerdded i'r gorllewin o bentref bychan hardd Llanegwad yn cynnig taith hamddenol ar dir cymharol wastad. Ar adeg ysgrifennu hwn, nid oes camfa ar y llwybr hwn o gwbl (oni bai eich bod yn cymryd y daith fyrrach ar hyd y llwybr sy'n mynd tua'r gogledd o ffermdy Llwchgwyn) ac felly mae'n addas ar gyfer cerddwyr sydd ond yn gallu cerdded rhyw ychydig. Tua 3.5km (2.25 milltir) yw hyd y daith ac mae golygfeydd gwych oddi yno ar hyd dyffryn Tywi. Mae'r llwybrau sy'n mynd i'r dwyrain a'r gorllewin o Nantgaredig yn eithaf gwastad ond mae ambell gamfa ar eu hyd. Mae'r llwybrau i'r gogledd o'r A40 ychydig yn fwy anodd gyda pheth tir mwy serth ac mae'n bosibl y byddant yn lleidiog mewn rhai mannau hyd yn oed yn ystod yr haf. Argymhellwn eich bod yn gwisgo esgidiau cryf.

Sylwer. Mae rhai o'r llwybrau'n arwain at rannau o ffordd dosbarth "A" gyda thraffig cyflym arni a dim palmentydd. Bydd angen goruchwylio plant yn ofalus iawn.

## The Walks

The circular walk to the west of the attractive little village of Llanegwad offers a gentle stroll on fairly even ground. At the time of writing, there are no stiles on this path (unless the route is shortened by taking the path running north from Llwchgwyn farmhouse) so it is suitable for walkers with limited mobility. It is approximately 3.5km (2.25 miles) long and provides picturesque views along the Towy valley. The paths running east and west from Nantgaredig are quite level but do have some stiles on them. The paths to the north of the A40 are a little more taxing with some steeper ground and may be muddy in places even during the summer. Stout footwear is therefore recommended.

Please note. Some of the paths lead to sections of "A" class road with fast moving traffic and without pavements. Children will need close supervision.



## Y Rheolau Cefn Gwlad

Mwynhewch gefn gwlad a pharchwch ei fywyd a'i waith.

- Gofalwch nad ydych yn achosi tanau.
- Caewch bob gât.
- Gofalwch fod gennych reolaeth ar eich cŵn.
- Cadwch ar lwybrau cyhoeddus ar draws tir amaeth.
- Defnyddiwch gatiau a sticlau i groesi ffensys, perthi a waliau.
- Gadewch lonydd i dda byw, cnydau a pheiriannau.
- Ewch â'ch sbwriel nôl gyda chi.
- Helpwch ni i gadw pob ffynhonnell dŵr yn lân
- Diogelwch fywyd gwyllt, planhigion a choed.
- Cymerwch ofal arbennig ar ffyrdd cefn gwlad.
- Peidiwch â gwneud unrhyw sŵn diangen.

Adfywio

## The Country Code

Enjoy the countryside and respect its life and work.

- Guard against all risk of fire.
- Fasten all gates.
- Keep your dogs under close control.
- Keep to public paths across farmland.
- Use gates and stiles to cross fences, hedges and walls.
- Leave livestock, crops and machinery alone.
- Take your Litter home.
- Help to keep all water clean.
- Protect Wildlife plants and trees.
- Take special care on country roads.
- Make no unnecessary noise.

Cyngor Cefn Gwlad Cymru Countryside Council for Wales

BTCV Cymru